Swyddfa Gartref

# YMATEBION I YMGYNGHORIAD: ADDASU'R DDEDDF TRWYDDEDU

# RHAGAIR Y GWEINIDOG



Rydw i'n ddiolchgar i bawb sydd wedi treulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar 'Addasu'r Ddeddf Trwyddedu: Ymgynghoriad ar roi pŵer i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol lunio a phenderfynu ar drwyddedu lleol'.

Cred y Llywodraeth y dylai cymunedau lleol chwarae rôl fwy blaenllaw wrth benderfynu ar drwyddedu lleol ac, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn parhau'n ymrwymedig i Addasu'r Ddeddf Trwyddedu gan ffafrio'r cymunedau lleol. Bydd y pecyn o fesurau y byddwn ni'n ei gyflwyno drwy'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol yn rhoi'r offer angenrheidiol i'r cymunedau lleol sefydlu a rheoli'r math o economi hwyr y nos y maen nhw am ei weld a bydd yn sicrhau bod barn a phryderon y trigolion lleol yn cael eu clywed a'u hystyried.

Cydnabyddwn y cyfraniad sylweddol y gall eiddo trwyddedig ei wneud i'n cymunedau lleol a bod y mwyafrif o'r eiddo hyn yn fusnesau cyfrifol. Fodd bynnag, mae angen mesurau llymach i ddelio â'r lleiafrif bychan o eiddo trwyddedig anghyfrifol fel y rhai sy'n parhau i werthu alcohol i blant. Lluniwyd y mesurau hyn i'w defnyddio'n hyblyg gan awdurdodau trwyddedu i osgoi cosbi'r mwyafrif o eiddo sy'n gwerthu alcohol yn gyfrifol.

Bydd y polisïau sy'n cael eu cyflwyno yn galluogi'r heddlu ac awdurdodau trwyddedu i ddelio'n fwy effeithiol gyda throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol yn yr economi hwyr y nos. Fodd bynnag, nid yw delio â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol yn rhywbeth y gellir delio ag ef yn ganolog ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i unigolion a chymunedau lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb drosto. Mae'r mesurau alcohol yn dangos symudiad sylfaenol i ffwrdd oddi wrth ymyrraeth ganolog mewn trwyddedu i fwy o bwyslais ar gyfrifoldeb ac ymatebolrwydd lleol.

Rydym yn argyhoeddedig na ddylai delio â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol fod ar draul busnesau cyfrifol. Mae defnydd effeithiol o gynlluniau fel Ardaloedd Gwella Busnesau a'r cynllun gwobr cenedlaethol, Best Bar None, wedi dangos yr effaith cadarnhaol y gall cydweithio o fewn cymunedau ei gael. Wrth gyflwyno'r mesurau hyn yn y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol, rydym yn parhau'n ymroddedig i annog mwy o gydweithio mewn partneriaeth wrth barhau i chwilio am ddulliau i ostwng y baich rheoleiddio ar fusnesau ac awdurdodau lleol.



**James Brokenshire AS**

Is-ysgrifennydd Seneddol dros Atal Troseddu.

# CONTENTS


| | |
|---|---|
| Rhagair Y Gweinidog | 2 |
| CYFLWYNIAD | 4 |
| Rhoi mwy o bwerau lleol i wrthod a diddymu trwyddedau | 6 |
| Delio â phroblemau yfed hwyr y nos | 7 |
| Rhybudd o Ddigwyddiadau Achlysurol | 9 |
| Diogelu Plant rhag Niwed gan Alcohol | 10 |
| Gwahardd Gwerthu am lai na Chost | 11 |
| Gostwng baich a biwrocratiaeth trwyddedu a thalu'r costau | 11 |
| Casgliad | 12 |

# CYFLWYNIAD

1. Roedd cyflwyno Deddf Trwyddedu 2003 a thrwyddedau 24 awr yn addo cyflwyno ‘diwylliant-caffi’ math cyfandirol. Yn lle hynny, yn 2009/10 roedd bron i hanner yr holl droseddau treisgar oherwydd alcohol[1] ac mae’r heddlu’n ymladd brwydr gyson a drud yn erbyn troseddau’n ymwneud ag alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ôl yr Arolwg Troseddau Prydeinig (BCS) 2009/10, credai 50% o ddioddefwyr troseddau treisgar fod y troseddwr o dan ddylanwad alcohol[1]. Mae’r gyfran hon wedi parhau’n gyson uchel er gwaethaf gostyngiad cyffredinol sylweddol yn lefelau troseddau treisgar. Mae pumed ran o’r holl ddigwyddiadau treisgar yn digwydd mewn neu o gwmpas tafarndai neu glybiau[2]. Digwydd y mwyafrif (64%) o’r holl drais min nos neu yn ystod y nos ac mae llai na hanner ohonyn nhw’n digwydd yn ystod y penwythnos (dydd Gwener 6pm tan ddydd Sul 6am)[2]. Roedd bron i chwarter ymatebwyr BCS yn ystyried bod pobl feddw neu swnllyd mewn mannau cyhoeddus yn broblem fawr iawn neu’n un eithaf mawr yn eu hardal leol[1].
2. Mae’r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau nad yw alcohol bellach yn achos trosedd ac anhrefn fel y bu dros y ddegawd ddiwethaf. Yn 2009/10, roedd bron i filiwn o droseddau treisgar yn gysylltiedig ag alcohol[1]. Mae derbyniadau i ysbytai oherwydd alcohol yn cynyddu’n anferthol. Yn 2009/10 derbyniwyd dros filiwn o gleifion oherwydd alcohol i ysbytai – ac mae’r ffigwr yn codi o tua 78,000 bob blwyddyn[3]. Hefyd, mae alcohol yn gyfrifol am tua 40% o’r rhai sy’n ymweld ag adrannau D&A. Mae’r lefel niwed hon yn annerbyniol a dyna pam mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo yng Nghytundeb y Glymblaid i raglen glir o newid mewn trwyddedu alcohol er mwyn mynd i’r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (a niweidiau i iechyd o’r herwydd) sy’n rhy aml yn gysylltiedig â goryfed mewn pyliau yn yr economi hwyr y nos.
3. Yn 2009, roedd tua hanner (51%) o ddisgyblion yn dweud iddyn nhw yfed alcohol a’r cymeriant wythnosol cymedrig oedd 11.6 uned[4]. Er bod y gyfran o ddisgyblion sy’n yfed yn disgyn mae’n dal i fod yn achos pryder oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y defnydd o alcohol a thriwantiaeth, y defnydd o gyffuriau a deilliannau negyddol eraill fel beichiogrwydd yn yr arddegau.
4. Brasamcan o gyfanswm cost troseddau’n ymwneud ag alchol yw £8bn i £13bn[5]. Mae’r brasamcan hwn yn ystyried costau disgwyl troseddau, costau corfforol ac emosiynol uniongyrchol i ddioddefwyr, gwerth cynnyrch coll a chostau i’r gwasanaeth iechyd a’r System Cyfiawnder Troseddol. Mae plismona’r economi hwyr y nos yn gostus iawn o safbwynt adnoddau. Mewn astudiaeth ddiweddar gan y Swyddfa Gartref, roedd 22 o 48 awdurdod yr heddlu (46%) yn nodi economi hwyr y nos fel prif achos eu taliadau goramser[6].
5. Yn benodol, amlinellodd y Llywodraeth bum Ymrwymiad y Glymblaid:
   - Byddwn yn archwilio’r Ddeddf Trwyddedu i roi pwerau llawer cryfach i awdurdodau lleol a’r heddlu i ddiddymu trwyddedau o unrhyw eiddo sy’n achosi problemau neu i wrthod

1 Crime in England and Wales 2009/10: http://rds.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs10/hosb1210.pdf

2 Crime in England and Wales 2009/10, tablau atodol, natur troseddau treisgar: http://rds.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs10/violent_crime_0910.xls

3 Ffigyrau dros dro North West Public Health Observatory 2009/10 http://www.nwph.net/alcohol/lape/download.htm

4 Smoking, drinking and drug use among young people in England in 2009: http://www.ic.nhs.uk/webfiles/publications/Health%20and%20Lifestyles/sdd2009/SDD_2009_Report.pdf

5 Impact assessment for the consultation on a mandatory code for the alcohol retail industry. Y Swyddfa Gartref, 2008. http://www.ialibrary.berr.gov.uk/uploaded/IA%20Alcohol%20Mandatory%20Code.pdf

6 Understanding overtime in the police service, Chwefror 2010: http://library.npia.police.uk/docs/homeoffice/police-overtime.pdf

trwyddedau iddyn nhw.

- Byddwn yn caniatáu i gynghorau a'r heddlu gau'n barhaol unrhyw siop neu far sy'n parhau i werthu alcohol i blant.
- Byddwn yn dyblu'r ddirwy fwyaf ar gyfer gwerthu alcohol i rai dan oed i £20,000.
- Byddwn yn caniatáu i gynghorau lleol godi mwy am drwyddedau hwyr y nos i dalu am blismona ychwanegol.
- Byddwn yn gwahardd gwerthu alcohol am lai na chost.

6. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar 'Addasu'r Ddeddf Trwyddedu - Ymgynghoriad ar roi pŵer i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol i lunio a phenderfynu ar drwyddedu lleol' yn para am chwe wythnos rhwng 28 Gorffennaf a 8 Medi ac yn gwahodd prif bartneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol i fynegi barn ar nifer o gynigion polisi i gyflawni Ymrwymiadau'r Glymblaid a amlinellwyd uchod. Hefyd, cynhaliwyd saith cyfarfod ymgynghori rhanbarthol ar draws Cymru a Lloegr (roedd chwech o'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd bore a phrynhawn) a saith cyfarfod ymgynghori cenedlaethol yng nghanol Llundain i roi cyfle i'n prif bartneriaid drafod y cynigion yn fwy manwl.

7. Rydym yn ddiolchgar i bawb dreuliodd amser yn ymateb i'r ymgynghoriad ac i'r rhai oedd yn mynychu ein cyfarfodydd ymgynghori. Derbyniwyd 1,089 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad a 2,938 ychwanegol o ymatebion i'r ymgyrch. Mynychodd 517 o unigolion i gyd un o'r cyfarfodydd ymgynghori rhanbarthol a mynychodd 113 arall un o'r cyfarfodydd ymgynghori cenedlaethol. Casglwyd yr adborth o'r cyfarfodydd ymgynghori rhanbarthol a chenedlaethol ac mae wedi'i ystyried yn llawn ynghyd ag ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Comisiynodd y Swyddfa Gartref ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac o gynnyrch y cyfarfodydd ymgynghori. Mae prif ddarganfyddiadau'r dadansoddiad hwn wedi'u cynnwys yn yr ymateb hwn a gellir gweld dadansoddiad annibynnol llawn o ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Dechreuodd yr ymgynghori gyda phrif fudd-ddeiliaid ym mis Mehefin 2010. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyn-ymgynghori yn y Swyddfa Gartref. Daeth nifer dda i'r cyfarfodydd hyn gan gynnwys cynrychiolwyr o'r holl grwpiau budd-ddeiliaid.

8. Rydym hefyd yn ddiolchgar i holl aelodau'r fasnach drwyddedu oedd yn rhoi o'u hamser i fynychu ein cyfarfodydd ymgynghori a/neu i gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Nid ein bwriad yw cosbi busnesau cyfrifol. Yn wir, cydnabyddwn bwysigrwydd y diwydiant i'r economi. Mae'r diwydiant yn gyffredinol yn cyfrannu tua £8.5bn i'r Trysorlys drwy doll ecseis yn unig ac mae gan ychydig dros 180,000 eiddo drwydded i werthu alcohol. Rydym wedi ymrwymo i finimeiddio beichiau rheoleiddio ar fusnesau ac rydym wedi ceisio cydbwyso unrhyw reoleiddio ychwanegol gydag ymrwymiadau i ddiddymu unrhyw brosesau a rheoleiddio biwrocrataidd diangen neu ormodol.

9. Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn bryderus oherwydd natur ac amseru cyfyngedig yr ymgynghoriad dros gyfnod gwyliau. Er ein bod yn cydnabod nad oedd yr ymgynghoriad 6 wythnos mor hir ag y mae'r canllawiau'n argymell, cymerwyd camau i sicrhau bod cynifer o bobl ag oedd yn bosibl yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad naill ai drwy gyflwyno ymateb ffurfiol neu fynychu un o'n cyfarfodydd ymgynghori. Cynhaliodd swyddogion gyfarfodydd rhanbarthol ychwanegol yn Llundain a Nottingham i ychwanegu at y cyfarfodydd a drefnwyd yn Llundain, Blackpool, Birmingham, Caerdydd a Newcastle. Dechreuodd y cyn-ymgynghori gyda'n prif bartneriaid ym mis Mehefin 2010.

# RHOI MWY O BWERAU LLEOL I WRTHOD A DIDDYMU TRWYDDEDAU

10. Yng Nghytundeb ein Clymblaid, rydym wedi ymrwymo i 'archwilio'r Ddeddf Trwyddedu (2003) i roi pwerau llawer cryfach i awdurdodau lleol a'r heddlu ddiddymu trwyddedau neu wrthod caniatáu trwyddedau i unrhyw eiddo sy'n achosi problemau'. Roedd Pennod pump o'r ddogfen ymgynghori'n amlinelli cyfres o gynigion i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

11. Rydym wedi ystyried y darganfyddiadau hyn yn ofalus, ynghyd â sylwadau a godwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori. Bwriadwn ddefnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i gyflwyno pecyn o fesurau i archwilio'r Ddeddf Trwyddedu 2003, i:

    1) Roi'r pwer i awdurdodau trwyddedu wrthod ceisiadau am drwyddedau neu wneud cais am adolygiad o drwydded heb ofyn am sylwadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol. Bydd hyn yn helpu awdurdodau trwyddedu i dargedu'n bro-actif y busnesau anghyfrifol. Roedd nifer mawr o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd rhai'n mynegi pryderon y gallai hyn arwain at annhegwch gweithdrefnol. Fodd bynnag, rydyn ni'n hyderus na fydd hyn yn wir gan y bydd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu o fewn yr awdurdod trwyddedu i sicrhau nad yw swyddogaethau gwahanol yn cael eu gweithredu gan yr un unigolion. Mae'r drefn hon yn debyg i'r un sy'n gweithredu o fewn Deddf Hapchwarae 2005 ac mae'n gweithio'n dda.

    2) Gostwng y rhwystr tystiolaethol i awdurdodau trwyddedu wrth wneud penderfyniadau trwyddedu drwy ofyn iddyn nhw wneud penderfyniadau sy'n 'briodol' yn hytrach na rhai sy'n angenrheidiol i hybu amcanion trwyddedu. Bydd hyn yn help i sicrhau bod awdurdodau trwyddedu'n gallu adlewyrchu anghenion ardal leol yn well. Cefnogwyd y cynnig hwn hefyd gan nifer mawr o ymatebwyr. Er bod y rhwystr tystiolaethol yn cael ei ostwng, bydd disgwyl i awdurdodau trwyddedu sicrhau o hyd bod eu penderfyniadau ar sail tystiolaeth a'u bod wedi'u cysylltu â'r amcanion trwyddedu.

    3) Cynyddu cyfleoedd trigolion lleol neu eu grwpiau cynrychioli i fod yn rhan o wneud penderfyniadau trwyddedu drwy ddileu'r gofyn am ddangos cyffiniau. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw berson, corff neu fusnes wneud datganiad perthnasol lle bynnag maen nhw'n byw. Er bod beirniadaeth wedi'i mynegi yn ystod yr ymgynghori y gallai'r cynnig hwn arwain at gynnydd mewn sylwadau gwamal a thrallodus, roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu mwy o gyfranogiad y gymuned yn y broses drwyddedu ac yn cydnabod y gall eiddo trwyddedig gael effaith y tu hwnt i'w cyffiniau agos. Er ein bod yn cydnabod y feirniadaeth, byddwn yn lleddfu unrhyw effeithiau anffafriol drwy newid y canllawiau i amlinellu'n gliriach yr hyn a elwir yn sylwadau perthnasol, gwamal a thrallodus. Credwn y bydd y cynnig hwn yn annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned mewn penderfyniadau trwyddedu lleol. Bydd y Llywodraeth yn gofyn i awdurdodau trwyddedu gyhoeddi gwybodaeth allweddol am geisiadau am drwydded ar lein, gan roi mwy o eglurder i drigolion ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal a chyfle cynnar i fynegi pryderon, cefnogaeth neu wrthwynebiadau i geisiadau am drwydded neu adolygiadau. Fel rhan o'r agenda tryloywder, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i annog cyhoeddi mwy o ddata trwyddedu ar lein mewn fformat agored a safonedig.

12. Bydd yn galluogi mwy o gyfranogiad gan gyrff iechyd lleol mewn penderfyniadau trwyddedu drwy enwebu Ymddiriediolaethau Gofal Cychwynnol (PCTs), neu'r rhai fydd yn cyfateb iddyn nhw yn y dyfodol) yn Lloegr a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yng Nghymru, fel awdurdod cyfrifol. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gyffredinol gefnogol i'r cynnig hwn ac yn

cydnabod gwerth ystyried gwybodaeth fel ystadegau D&A lleol wrth wneud penderfyniadau trwyddedu. Er hynny, roedd rhai ymatebwyr yn amau gallu cyrff iechyd i fynegi sylwadau sy'n benodol i eiddo unigol. Er ein bod yn cydnabod hyn, credwn ei bod yn hanfodol i PCTs a BILlau allu dylanwadu ar benderfyniadau trwyddedu drwy fynegi sylwadau perthnasol. Gall effeithiau o'r fath gynnwys materion diogelwch y cyhoedd, sy'n cael ei adlewyrchu mewn gorymestyn adnoddau D&A a gorlwytho staff. Bydd yn rhaid mynegi'r sylwadau hyn o hyd mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu presennol ac rydym yn hyderus y bydd cyrff iechyd lleol yn gallu gwneud hyn. Rydyn ni hefyd yn gweld gwerth yn y cynnig i wneud atal niwed i iechyd yn ystyriaeth faterol yn Neddf Trwyddedu 2003. Rydym am sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r gwaith ehangach i ddelio â niwed alcohol i iechyd. Felly, nid ydym yn bwriadu deddfu ar hyn o bryd ond byddwn yn ystyried y ffordd orau i wneud hyn yn y dyfodol.

13. Yn ychwanegol at y cynigion yn y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol, byddwn yn diwygio'r Canllaw Statudol i wneud yn glir i awdurdodau trwyddedu bod rhagdybiaeth y dylid derbyn pob argymhelliad rhesymol gan yr heddlu heblaw bod tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb.

14. Bydd y Canllaw Statudol hefyd yn cael ei ddiwygio i fynnu bod ymgeiswyr am drwydded yn ystyried ymhellach y budd i gymuned leol wrth osod y camau y byddan nhw'n eu cymryd i hybu'r amcanion trwyddedu. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ar faterion fel nodweddion cymdeithasol-demograffig ardal leol, materion troseddau ac anhrefn lleol penodol ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol. Nid ydym yn bwriadu bod yn rhagnodol am y wybodaeth benodol y dylai ymgeiswyr ei pharatoi a byddwn yn gweithio gyda'r fasnach i ystyried y dull gorau i gyflwyno'r gofyn ychwanegol hwn. Mae hwn yn gam pwysig tuag at wella'r broses drwyddedu fel bod disgwyl i ymgeiswyr ystyried anghenion a buddion y gymuned lle mae eu busnesau'n gweithredu.

15. Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion i ddiwygio'r broses apêl a'r cynnig i gymhwyso penderfyniadau awdurdodau trwyddedu ar unwaith heblaw bod y rhain yn cael eu gwrthdroi yn dilyn apêl, rydym wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd ac wedi penderfynu na fyddan nhw'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon am yr effaith negyddol posibl y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar degwch gweithdrefnol y broses drwyddedu.

# DELIO Â PHROBLEMAU YFED HWYR Y NOS

16. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i osod fframwaith lle gall awdurdodau trwyddedu ddelio'n iawn â'r pwysau a achosir gan yfed gormodol hwyr y nos a'r diwylliant trwyddedu 24 awr. Dywedodd llawer gormod o drigolion a grwpiau trigolion wrthym fod yr economi hwyr y nos yn gwneud rhai ardaloedd mewn trefi'n fannau na ddylid mynd iddyn nhw gyda'r nos a bod ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag yfed hwyr y nos yn ymestyn i mewn i gymunedau preswyl nid yn unig o gwmpas eiddo trwyddedig. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod awdurdodau trwyddedu ac asiantaethau gorfodi'n cael yr offer cywir i ddelio â'r problemau yn eu hardaloedd wrth hybu economi hwyr y nos iach er budd y busnesau a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

    1) Dylid cael atebion lleol i broblemau lleol yn yr economi hwyr y nos, felly byddwn ni'n sicrhau bod gan awdurdodau trwyddedu ac asiantaethau gorfodi ddigon o bŵer i wneud hyn. Byddwn yn defnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i gyflwyno pwerau i ganiatáu i awdurdodau lleol godi treth hwyr y nos i dalu am blismona'r

economi hwyr y nos a gwasanaethau eraill sy'n berthnasol i ganlyniadau alcohol ar yr economi hwyr y nos, fel trefnu tacsis neu wardeniaid strydoedd.

2) Mewn ardaloedd lle mae awdurdodau trwyddedu'n dewis gosod y dreth, bydd yn cael ei chodi'n flynyddol ar y rhai ar draws yr ystod o werthwyr sydd â thrwydded i werthu alcohol ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod trwyddedu'n penderfynu sy'n gymwys yn eu hardal. Y cyfnod mwyaf y gall y dreth gyfeirio ato fydd rhwng hanner nos a 6am, ond gall awdurdodau trwyddedu ddefnyddio eu doethineb i gymhwyso'r dreth i gyfnod llai o fewn y perimedrau hynny.

3) Gosodir y dreth ar lefel genedlaethol drwy ddefnyddio'r bandiau gwerth trethadwy presennol ar gyfer ffi flynyddol y drwydded. Bydd awdurdodau trwyddedu'n defnyddio eu doethineb i gynnig eithriadau neu ddisgowntiau mewn rhai sefyllfaoedd fydd yn cael eu hamlinellu mewn rheoliadau. Gall aelodaeth o gynlluniau sy'n lleddfu effeithiau trosedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol neu rai nad sydynt yn cyfrannu at gostau plismona ychwanegol o ganlyniad i werthu alcohol fod yn rhai enghreifftiau o hyn.

4) I wneud y baich o gasglu'r dreth yn llai i awdurdodau trwyddedu, defnyddir yr un broses ag a ddefnyddir i gasglu ffi flynyddol y drwydded. Bydd y costau'n cael eu hamlinellu mewn deddfwriaeth eilaidd.

5) Ni fydd y dreth hwyr y nos yn gymwys i Rybudd o Ddigwyddiadau Achlysurol. Bydd hyn yn sicrhau y gall eiddo trwyddedig sy'n masnachu'n rheolaidd ar ôl hanner nos agor yn hwyr ar gyfer nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau (er enghraifft, dathliadau Nos Galan) heb orfod talu'r dreth hwyr y nos.

6) Byddwn yn defnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i ymestyn Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar er mwyn gallu eu cymhwyso'n hyblyg ar gyfer cyfnodau rhwng hanner nos a 6am. Derbyniodd y cynnig hwn gefnogaeth gref yn yr ymgynghoriad a bydd yn rhoi rhyddid i awdurdodau trwyddedu ymateb i anghenion eu hardal leol. Bydd awdurdodau trwyddedu'n gallu cymhwyso'n hyblyg y Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar i sicrhau nad yw busnesau cyfrifol sy'n agor ar ôl hanner nos yn cael eu cosbi'n annheg. Hefyd, byddwn yn diwygio'r Canllaw Statudol i'w gwneud yn glir i ardaloedd lleol y gallan nhw wneud penderfyniadau am amseroedd cau. Bydd y canllaw'n sicrhau y gall awdurdodau trwyddedu adlewyrchu anghenion eu hardal leol drwy ddefnyddio mesurau fel amseroedd cau sefydlog, amseroedd cau hwnt-gychwyniad a fesul parth pan fyddan nhw'n eu hystyried yn briodol. Eto, roedd y cynnig hwn yn derbyn cefnogaeth eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

7) Yn dilyn cefnogaeth aruthrol gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, byddwn yn defnyddio'r Mesur Hawliau a Rhydid i ddirymu'r Parthau Anhrefn Alcohol.

8) Byddwn yn diwygio'r Canllaw Statudol i ostwng y rhwystr tystiolaeth ar gyfer Polisïau Effeithiau Cronnus i ganiatáu i awdurdodau trwyddedu gael mwy o reolaeth dros ddwysedd y mannau gwerthu. Wedi gwrando ar farn ymatebwyr i'r ymgynghoriad, byddwn yn sicrhau bod y Canllaw'n amlinellu'n glir lle dylid defnyddio Polisïau Effeithiau Cronnus i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n deg.

# RHYBUDD O DDIGWYDDIADAU ACHLYSUROL

17. Rydym yn ceisio archwilio'n drylwyr y system ar gyfer Rhybudd o Ddigwyddiadau Achlysurol (TENs) fel na all unrhyw weithredwyr diegwyddor ymelwa ar unrhyw ddiangfeydd, a sicrhau ar yr un pryd nad yw'r broses yn fiwrocrataidd ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymuned fach. Yn y ddogfen ymgynghorol, roedden ni'n gofyn am adborth am y modd gorau o wneud hyn. Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar estyn yr hawl i ganiatáu i bob awdurdod cyfrifol wrthwynebu TENs, rydym wedi penderfynu ymestyn yr hawl i wrthwynebu i TENs i awdurdod iechyd amgylcheddol yn unig. Bydd hyn yn caniatáu gwrthwynebiadau ar sail sŵn, rhywbeth y mae cymdeithasau trigolion yn dweud wrthym sy'n broblem ar hyn o bryd wrth sicrhau nad yw'r broses TENs yn mynd yn rhy fiwrocrataidd.

18. Byddwn yn caniatáu i'r heddlu a swyddogion iechyd amgylcheddol wrthwynebu TENs ar sail pob un o'r amcanion trwyddedu yn hytrach nag atal trosedd ac anhrefn yn unig. Felly, gellir gwrthwynebu ar sail atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed. Byddwn hefyd yn ymestyn yr amser y caniateir i'r heddlu a swyddogion iechyd amgylcheddol wrthwynebu TENs i dri diwrnod gwaith (o'r ddau bresennol) yn hytrach na'r pum niwrnod a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

19. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y cyfnod rhybudd y dylai'r ymgeiswyr ei roi cyn eu digwyddiad. Awgrymodd yr ymgynghoriad y dylid ymestyn y cyfnod rhybudd o'r un presennol o roi deng niwrnod fel bod gan awdurdodau trwyddedu ddigon o amser i gynnal gwrandawiad os bydd un o'r awdurdodau sy'n gyfrifol yn gwrthwynebu. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cadw'r cyfnod rhybudd i ddeng niwrnod i sicrhau nad yw'r baich ar y busnes yn mynd yn fwy. Hefyd, rydym felly wedi penderfynu peidio â gweithredu system lle bydd eiddo trwyddedig yn cael cyfnod rhybudd hwy nag ymgeiswyr eraill. Credwn y bydd digon o amser o hyd i wrthwynebiadau drwy ganiatáu tridiau i hyn ac felly rydym wedi ceisio cael hyd i rywle yn y canol.

20. Hefyd, rydym wedi ymgynghori ar ymarferoldeb caniatáu i awdurdodau trwyddedu ddefnyddio doethineb i gymhwyso amodau trwyddedu presennol i TENs i atal camddefnyddio'r system TENs i osgoi eu hamodau trwyddedu. Er bod pryderon wedi'u mynegi gan nifer bychan o ymatebwyr am effaith y cynnig hwn ar y fasnach drwyddedu, ni chredwn y bydd hyn yn cosbi busnesau cyfrifol a chytunwyd gyda'r nifer mawr o ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig hwn y dylid gadael hyn i ddoethineb yr awdurdodau trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol. Felly, ein bwriad yw caniatáu i awdurdodau trwyddedu ddefnyddio doethineb i gymhwyso'r amodau trwyddedu presennol i TENs.

21. Rydym yn ymwybodol bod nifer o grwpiau cymuned ac aelodau'r cyhoedd weithiau'n ei chael hi'n anodd rhoi rhybudd o ddeng niwrnod cyn achlysur. Mae rhesymau cyfreithlon pam ei bod yn bosibl y bydd busnes angen cyflwyno TENs llai na deng niwrnod cyn yr achlysur, er enghraifft gall safle syrcas fod o dan ddŵr pan fydd y syrcas yn cyrraedd felly bydd yn rhaid chwilio am safle arall neu fod rhywun yn methu â chynnal achlysur oherwydd profedigaeth. Ar hyn o bryd, ni all yr awdurdod trwyddedu dderbyn unrhyw TENs hwyr ac mae pob TENs a gyflwynir yn hwyr yn annilys yn awtomatig. Felly, ein bwriad yw caniatáu i TENs gael eu cyflwyno i awdurdodau trwyddedu gyda llai na 10 niwrnod o rybudd ond bod yn rhaid i hyn ddigwydd o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn yr achlysur. Bydd hyn yn dal i sicrhau craffu cywir, ond os bydd yr heddlu neu swyddogion iechyd amgylcheddol yn gwrthwynebu, ni ellir cynnal yr achlysur heb gael gwrandawiad. Bydd terfyn blynyddol ar y nifer o TENs hwyr a ganiateir. Bydd caniatâd i ddeilwyr trwyddedau personol gael mwyafrif o 10 y flwyddyn a rhai amhersonol gael mwyafrif

o 2 y flwyddyn gan nad ydym am i'r defnydd o TENs hwyr fod yn rhywbeth arferol.

22. Hefyd, bwriadwn gydbwyso'r baich ychwanegol y gall y cynigion TENs achosi drwy lacio'r terfynau presennol ar hyd Digwyddiadau Achlysurol dros dro. Mae sefydliadau fel theatrau a syrcas wedi dweud wrthym y byddai'n well ganddyn nhw'n aml gynnal digwyddiadau am wythnos, ond nad oes caniatâd iddyn nhw wneud hyn oherwydd terfyn y cyfnod presennol o 96 awr, gan greu colled o safbwynt y busnes ac incwm. Felly, bwriadwn ymestyn y terfyn hwn i 168 awr. Byddwn hefyd yn cynyddu'r cyfanswm cyfnod cronnus mewn unrhyw flwyddyn lle gellir defnyddio un eiddo ar gyfer gweithgareddau yn unol â TENs o 15 niwrnod i 21 diwrnod.

23. Byddwn yn defnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i wneud y newidiadau hyn i Rybuddion Digwyddiadau Achlysurol Dros Dro.

24. Roeddem yn nodi dadleuon y rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnig i ostwng y nifer o TENs y gellir gwneud cais amdanyn nhw gan ddeilydd trwydded bersonol i 12 y flwyddyn ac yn arbennig yr effaith y byddai'r cynnig yn ei gael ar syrcas ac felly, rydym wedi penderfynu na fydd y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu. Hefyd, rydym wedi penderfynu peidio â datblygu'r cynnig i gyfyngu ar y nifer o TENs y gellir gwneud cais amdanyn nhw yn yr un ardal gan i ni gael ein perswadio gan ddadleuon y gallai'r cynnig hwn gyfyngu ar y nifer o ddigwyddiadau cymunedol a drefnir gan ddeiliaid trwyddedau personol lleol fel landlordiaid mewn pentrefi.

# DIOGELU PLANT RHAG NIWED GAN ALCOHOL

25. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed gan alcohol. Roeddem yn ymrwymo yng nghytundeb ein Clymblaid i ddyblu'r ddirwy eithaf am werthiant alcohol dan oed cyson i £20,000 ac i ganiatáu i awdurdodau trwyddedu a'r heddlu gau'n barhaol unrhyw siop neu far y gwelir eu bod yn gwerthu alcohol i blant yn gyson. I gyflawni hyn, bwriadwn ddefnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i ddyblu'r ddirwy eithaf am werthiant dan oed cyson ac i ymestyn y cyfnod lleiaf o gau gwirfoddol y gellir ei roi i eiddo sy'n gwerthu dan oed yn gyson o fwyafswm o 48 awr i gyfnod cau lleiaf o 48 awr a chyfnod cau mwyaf o 2 wythnos.

26. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y terfyn isaf ac uchaf mwyaf addas ar gyfer y cyfnod o gau gwirfoddol y gellir ei gymhwyso'n hyblyg gan yr heddlu i arbed erlyniad am werthiant dan oed cyson. Cynigiwyd terfyn lleiaf o 168 awr yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y farn yn amrywio yn y cyfarfodydd ymgynghori ac o'r ymatebion ffurfiol i'r cynnig hwn. Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn awgrymu bod terfyn lleiaf o 168 awr yn rhy uchel ac y dylid cadw'r cyfnod cau 48 awr presennol. Fodd bynnag, roedd nifer mawr hefyd yn awgrymu y dylid cael ystod o gyfnodau cau y gellid eu cymhwyso'n hyblyg yn dibynnu ar ba mor ddifrifol oedd yr amgylchiadau ac o ystyried ffactorau fel maint yr eiddo ac effaith tebygol y cau. Roedd y darganfyddiadau'n gliriach pan ofynnwyd i'r ymatebwyr awgrymu terfyn uchaf addas ar gyfer y cyfnod o gau gwirfoddol gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi gosod hyn ar 2 wythnos neu fwy.

27. Roedd y cynnig i wneud adolygiadau trwyddedau'n awtomatig i'r rhai sy'n gwerthu alcohol yn gyson i blant yn derbyn llawer o gefnogaeth yn yr ymgynghoriad er bod nifer o bryderon wedi'u mynegi y byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i weithredu'r polisi hwn yn atal awdurdodau trwyddedu, yr heddlu a safonau masnach rhag defnyddio eu doethineb. Felly, byddwn yn defnyddio'r Canllaw Statudol sy'n cydfynd â'r Ddeddf Drwyddedu 2003 i sicrhau

bod awdurdodau trwyddedu'n delio'n ddifrifol â'r drosedd ac, ar ôl cynnal adolygiad, y rhagdybiaeth yw y bydd deiliaid trwyddedau'n cael y gosb eithaf sef diddymu'r drwydded, heblaw bod tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i annog mwy o ddefnydd o bwerau presennol i erlyn y rhai a welir yn gwerthu alcohol dan oed yn gyson ac i ddefnyddio'r ystod lawn o ddedfrydau sydd ar gael.

28. Hefyd, rydym am sicrhau bod gan fusnesau ymagwedd clir at atal gwerthu dan oed. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant alcohol i sicrhau bod cynlluniau gwirfoddol fel Her 21 a Her 25 yn norm. Dylid cyhoeddi'r cynlluniau hyn yn helaeth a'u monitro'n rheolaidd drwy ymgyrchoedd prawf-brynu gwirfoddol. Byddwn yn datblygu'r cynigion hyn fel rhan o'r Fargen Cyfrifoldeb ehangach.

# GWAHARDD GWERTHU AM LAI NA CHOST

29. Roedd Pennod 9 yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddulliau syml, effeithlon i ddiffinio 'cost' alcohol a dulliau effeithlon i orfodi'r gwaharddiad ar werthu am lai na chost. Rydym yn ddiolchgar i'r holl ymatebwyr hynny oedd yn rhoi ymatebion manwl i'r cwestiynau a amlinellwyd ym mhennod 9 ac i'r aelodau hynny o'r fasnach drwyddedu oedd yn cyfarfod â swyddogion i ymchwilio i'r opsiynau. Mae'r ymatebion wedi dangos ystod eang o sylwadau ar y pwnc heb unrhyw gonsensws cyffredinol. Roedd nifer o ymatebwyr yn codi problemau cyfrinachedd masnachol ac ymarferoldeb gorfodi gwaharddiad nad oedd yn cynnwys diffiniad clir a syml o gost.

30. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cynigion i weithredu'r gwaharddiad ar werthu am lai na chost yn ddi-oed; fodd bynnag, ni fyddan nhw'n ffurfio rhan o'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol.

# GOSTWNG BAICH A BIWROCRATIAETH TRWYDDEDU A THALU'R COSTAU

31. Rydym wedi ymrwymo i ostwng baich a biwrocratiaeth trwyddedu a tharo'r balans cywir rhwng gofynion busnesau, cost i'r trethdalwr a helpu'r heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill i ddelio â throseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol. Bwriadwn hefyd alluogi awdurdodau trwyddedu i osod ffioedd trwyddedu ar sail adennill costau'n llawn.

32. Byddwn yn defnyddio'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol i:

    1) Alluogi awdurdodau trwyddedu i wahardd trwyddedau dros dro oherwydd methu â thalu ffioedd. Bydd hyn yn sicrhau cymhelliant llawer cryfach i fusnesau dalu eu ffioedd yn brydlon ac arbed amser a chost i'r awdurdodau trwyddedu fynd ar ôl dyledion drwy'r llysoedd. Ni fydd y mesur hwn yn effeithio ar fusnesau cyfrifol sy'n talu eu ffioedd trwyddedu'n brydlon. Derbyniodd y cynnig hwn gefnogaeth gref gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

    2) Newid y gofyn i awdurdodau trwyddedu gyhoeddi eu Datganiad Polisi Trwyddedu bob tair blynedd i bob pum mlynedd (os na fyddan nhw wedi gwneud hyn yn y cyfamser). Awgrym

oedd hwn a ddaeth o'r cyfarfodydd ymgynghori.

33. Rydym wedi penderfynu peidio â diddymu'r amodau cod gorfodol yn y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol[7], ond byddwn yn adolygu'r cod o fewn 12 mis i asesu'r effaith a gafodd, yn arbennig o safbwynt gostwng baich diangen ar fusnesau. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gyffredinol yn gwrthwynebu diddymu'r holl amodau gorfodol.

34. Byddwn hefyd yn diweddaru'r rhestr o 'droseddau perthnasol' yn Nhrefnlen 4 y Ddeddf Trwyddedu 2003 i gynnwys troseddau o geisio cyflawni a chynllwynio i gyflawni troseddau perthnasol presennol a phan fydd gyrwyr yn methu â chydymffurfio â phrawf cyntaf alcohol, nam neu gyffuriau.

# CASGLIAD

35. 35. Cam cyntaf yn unig i geisio ymrwymiad gan y Glymblaid ar alcohol yw'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Methwyd â gwireddu'r 'diwylliant-caffi' yr oedd disgwyl i'r Ddeddf Drwyddedu 2003 ei gyflawni ac yn lle hynny mae canol ein trefi'n llawn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i yfed anghyfrifol. Rydym wedi ymrwymo i archwilio trwyddedu yng Nghymru a Lloegr fel na fydd alcohol bellach yn achos troseddu treisgar ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol fel y mae heddiw.

36. 7 Maeamodau'r cod gorfodol i: wahardd hybu anghyfrifol yn y siopau sy'n gwerthu alcohol; gwahardd dosbarthu alcohol yn uniongyrchol i gegau cwsmeriaid; a sicrhau bod dŵr tap ar gael am ddim ym mhob eiddo trwyddedig mewn tafarndai a gwestai, yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2010. Gweithredwyd yr amodau gorfodol i fynnu bod pob eiddo trwyddedig yn sicrhau bod ganddyn nhw bolisi dilysu oed ac i sicrhau eu bod yn gallu cynnig cyfrannau llai o gwrw, gwin a gwirodydd, ym mis Hydref 2010.

7 Maeamodau'r cod gorfodol i: wahardd hybu anghyfrifol yn y siopau sy'n gwerthu alcohol; gwahardd dosbarthu alcohol yn uniongyrchol i gegau cwsmeriaid; a sicrhau bod dŵr tap ar gael am ddim ym mhob eiddo trwyddedig mewn tafarndai a gwestai, yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2010. Gweithredwyd yr amodau gorfodol i fynnu bod pob eiddo trwyddedig yn sicrhau bod ganddyn nhw bolisi dilysu oed ac i sicrhau eu bod yn gallu cynnig cyfrannau llai o gwrw, gwin a gwirodydd, ym mis Hydref 2010.

1. ISBN 978-1-84987-379-6
2. Ymateb y Llywodraeth – Addasu’r Ddeddf Drwyddedu: ymgynghoriad ar roi pŵer i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol i lunio a phenderfynu ar drwyddedu lleol
3. HO_01728_G

**ISBN** 978-1-84987-379-6

Government Response- Rebalancing the Licensing Act: a consultation on empowering individuals, families and local communities to shape and determine local licensing

HO_01728_G